

Cofrestr yr NMC Cymru

1 Ebrill 2024 –
31 Mawrth 2025



Mae ein data unigryw yn rhoi cyfrif o'r gweithlu nyrsio a bydwreigiaeth yng Nghymru – faint o bobl sy'n ymuno ac yn gadael y proffesiynau, ble cawsant eu haddysgu, eu nodweddion demograffig, pam y gwnaeth pobl adael y gofrestr a mwy. Mae'r data yn seiliedig ar bobl sydd wedi rhoi cyfeiriad inni yng Nghymru.

Y darlun mawr

Mae nifer y nyrsys a'r bydwagedd yng Nghymru ar y gofrestr bellach yr uchaf erioed, sef **41,452**. Mae hynny'n **958 (2.4 y cant)** yn fwy na blwyddyn yn ôl (Mawrth 2024).

Fodd bynnag, fe fu gostyngiad bach yn nifer y bobl yng Nghymru a ymunodd â'r gofrestr am y tro cyntaf dros y flwyddyn ddiwethaf: **1,906** o'i gymharu â **2,029** yn 2023-2024). Mae hynny'n cynnwys llai o weithwyr proffesiynol a addysgwyd yn y DU yn ymuno â'r gofrestr: **1,505**, o'i gymharu â **1,679** y flwyddyn flaenorol¹.

Gadawodd cyfanswm o **1,463** o weithwyr proffesiynol yng Nghymru y gofrestr. Mae hyn yn **1.5 y cant** yn fwy o adawyr na'r flwyddyn flaenorol (**1,441** o adawyr yn 2023-2024). Fodd bynnag, pan edrychir ar hyn fel cyfran o'r gofrestr sy'n tyfu, gwelwn fod y gyfradd gadael ychydig yn is: gadawodd **3.6 y cant** o'r gofrestr, o'i gymharu â **3.7 y cant** yn 2023-2024.

41,452

o weithwyr proffesiynol ar y gofrestr yng Nghymru



Cynnydd o

958

+2.4%



Ym mis Mawrth 2025,
o'i gymharu â mis
Mawrth 2024



Nyrsys

+2.3%

38,951



Bydwagedd

+4.4%

2,115



**Nyrsys
deuol**

-3.3%

349



**Cymdeithion
nyrsio²**

+12.1%

37

Yn ystod y 12 mis
diwethaf, o'i gymharu
â'r un cyfnod yn
2023-2024



Ymunodd

1,906

â'r gofrestr

-6.1%



Gadawodd

1,463

y gofrestr

+1.5%

¹ Er bod gostyngiad yn nifer y bobl a ymunodd, tyfodd y gofrestr o hyd o ran maint oherwydd bod nifer y bobl a ymunodd yn parhau'n uwch na nifer y bobl a adawodd.

² Cyflwynwyd rôl y cydymaith nyrsio yn 2019. Dim ond yn Lloegr y gall cysylltwyr nyrsio ymarfer yn y rôl hon. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno cymdeithion nyrsio yng Nghymru; yn amodol ar newidiadau yn ein deddfwriaeth.

Recriwtio rhyngwladol

Ni all ein data sy'n ymwneud â gweithwyr proffesiynol sydd wedi'u haddysgu'n rhyngwladol yn ein hadroddiadau pedair gwlad byth fod yn bendant oherwydd efallai nad oes gan weithwyr proffesiynol gyfeiriad cofrestredig yn y DU eto ar adeg cofrestru. Mae hyn yn golygu y gallai fod gweithwyr proffesiynol rhyngwladol sy'n gweithio yng Nghymru nad ydynt wedi'u cynnwys yn y data hyn oherwydd nad ydynt wedi rhoi eu cyfeiriad yn y DU i ni eto.

Rydym yn annog pob ymunwr rhyngwladol â'n cofrestr i ddiweddarau eu manylion trwy [NMC Online](#) cyn gynted â phosibl.

O'r data diweddaraf, gwyddom fod o leiaf **401** o weithwyr proffesiynol rhyngwladol yng Nghymru wedi ymuno â'r gofrestr y llynedd. O'r rhain, addysgwyd **241 (60 y cant)** yn India, sy'n parhau i fod y ffynhonnell unigol fwyaf o recriwtio rhyngwladol yng Nghymru.



³ Mae'r NMC yn cydnabod bod iaith yn y maes hwn yn newid yn gyson a bod y bobl sydd wedi'u cynnwys o fewn termau mor eang yn cwmpasu grwpiau ethnig amrywiol. Rydym yn adolygu'r iaith a ddefnyddiwn yn rheolaidd.

Gwledydd addysg uchaf nad ydynt yn rhai'r DU ym mis Mawrth 2025, o'i gymharu â'r llynedd


- 1 India**
1,867 ↑ +28%
- 2 Y Philipinos**
1,419 ↑ +3.7%
- 3 Rwmania**
237 ↓ -0.8%

O fis Mawrth 2025

45 mlynedd,
4 mis ye oedran cyfartalog gweithwyr proffesiynol yng Nghymru

Mae **13.7%** o'r gofrestr yng Nghymru o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Yn 2020, roedd **9.5%** o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

Rhaniad rhywedd y gofrestr



Cofrestr gynyddol amrywiol

Mae amrywiaeth ethnig yn parhau i gynyddu ymhlith y rhai sydd wedi cofrestru yng Nghymru, oherwydd recriwtio rhyngwladol o bob cwr o'r byd, ynghyd â charfan gynyddol amrywiol yn ethnig o ymunwyr a addysgwyd yn y DU.

Mae gweithwyr proffesiynol o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn cyfrif am **fwy nag un o bob 10 (13.7 y cant)** o weithlu nyrsio a bydwreigiaeth Cymru. Mae hynny **1.5 pwynt canran yn uwch** na'r llynedd a **4.2 pwynt canran yn fwy** na phum mlynedd yn ôl.

Mae'r darlun hwn o amrywiaeth ethnig gynyddol yn ei gwneud hi'n bwysicach nag erioed y gall gweithwyr proffesiynol ymarfer mewn amgylchedd sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth ac yn mynd i'r afael â hiliaeth. Fel y rheoleiddiwr proffesiynol, mae gennym gyfrifoldeb hefyd i sicrhau canlyniadau teg a phrofiadau cadarnhaol i bawb ar ein cofrestr, waeth beth fo'u cefndir neu eu nodweddion. Mae hyn yn rhywbeth yr ydym yn gweithio tuag ato trwy ein [Cynllun Gwella Addasrwydd i Ymarfer](#) a'n [Cynllun Trawsnewid Diwylliant](#).


Pam y gwnaeth pobl adael y gofrestr yng Nghymru?

Ers 2017 rydym wedi cynnal arolwg blynyddol o weithwyr proffesiynol a adawodd ein cofrestr.

Mae arolwg eleni yn dangos canfyddiadau tebyg i arolwg y llynedd. Ymddeoliad yw'r prif reswm pam mae pobl yng Nghymru yn gadael y gofrestr o hyd. Yn bryderus, iechyd corfforol neu feddyliol yw'r ail reswm mwyaf cyffredin, sy'n gyson â'r darlun ledled y DU.

Mae cyfran y rhai sy'n gadael yng Nghymru a fyddai'n argymhell gyrfa fel nyrs neu fydwrraig yn parhau'n isel ar **18.5 y cant**, o'i gymharu â **18.2 y cant** y flwyddyn flaenorol.


Y crefyddau a nodwyd fwyaf cyffredin, newid mewn 12 mis



O fis Mawrth 2025

Mae **874** o bobl wedi datgan anabledd

Hyd amser ers y cofrestriad cychwynnol, newid yn y 12 mis diwethaf ⁴



⁴ Nid yw hyd yr amser ers y cofrestriad cyntaf o reidrwydd yn golygu cofrestru di-dor neu barhaus. Mae llawer o gofrestreion yn gadael y gofrestr am amrywiaeth o resymau, am un neu fwy o gyfnodau yn ystod eu gyrfaedd.

Rhannu data ar draws y sector

Rydym yn gobeithio y gall partneriaid a'r sector ehangach ddefnyddio'r trosolwg hwn o'n cofrestr yng Nghymru, ynghyd â'n tablau data cynhwysfawr a Chrynodeb Arolwg Ymadawyr y Gofrestr, yn eu hymchwil a chynllunio'r gweithlu.

Os oes gennych gwestiynau am ein data neu syniadau ar sut y gallem wella defnyddioldeb yr adroddiad hwn, cysylltwch â ni ar research@nmc-uk.org.




Paul Rees MBE

Prif Weithredwr a Chofrestrydd



As of March 2025,
compared to last
year



Ni ddylem anghofio bod gweithwyr proffesiynol ymroddedig y tu ôl i'n data sy'n darparu gofal diogel, effeithiol a charedig i bobl bob dydd. Rydym yn ddiolchgar am bopeth maen nhw'n ei wneud dros y bobl a'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu.



Yr hyn a wnawn

Ein gweledigaeth yw ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth diogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a lles pawb. Fel rheoleiddiwr annibynnol dros 853,000 o nyrsys a bydwragedd yn y DU a chymdeithion nyrsio yn Lloegr, mae gennym rôl bwysig i'w chwarae wrth wireddu'r weledigaeth hon.

Rydym yma i amddiffyn y cyhoedd trwy gynnal safonau nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol uchel, y mae gan y cyhoedd hawl i'w disgwyl. Dyna pam rydym yn gwella'r ffordd rydym yn rheoleiddio, yn gwella ein cymorth i gydweithwyr, gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd, ac yn gweithio gyda'n partneriaid i ddylanwadu ar ddyfodol iechyd a gofal cymdeithasol.

Ein rôl graidd yw rheoleiddio. Rydym yn gosod ac yn hyrwyddo safonau addysg a phroffesiynol uchel ar gyfer nyrsys a bydwragedd ledled y DU, a chymdeithion nyrsio yn Lloegr ac yn sicrhau ansawdd eu rhaglenni addysg. Rydym yn cynnal uniondeb y gofrestr o'r rhai sy'n gymwys i ymarfer. Ac rydym yn ymchwilio i bryderon am weithwyr proffesiynol - rhywbeth sy'n effeithio ar ychydig iawn o bobl yn unig ar ein cofrestr bob blwyddyn.

Er mwyn rheoleiddio'n dda, rydym yn cefnogi gweithwyr proffesiynol nyrsio a bydwreigiaeth a'r cyhoedd. Rydym yn creu adnoddau a chanllawiau sy'n ddefnyddiol drwy gydol gyrfaedd gweithwyr proffesiynol, gan eu helpu i gyflawni ein safonau yn ymarferol ac ymdrin â'r heriau y maent yn eu hwynebu. Rydym yn gweithio ar y cyd fel bod pawb yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys a'u grymuso i lunio ein gwaith. Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid i ymdrin â phryderon cyffredin, rhannu ein data, ein mewnwelediad a'n dysgu, i ddylanwadu ar benderfyniadau a'u llywio a helpu i ysgogi gwelliant mewn iechyd a gofal cymdeithasol i bobl a chymunedau.

23 Portland Place, London W1B 1PZ

+44 20 7637 7181 www.nmc.org.uk

@nmcnews @nmcuk @nmcnews

The Nursing and Midwifery Council

nmc
Cyngor
Nyrsio a
Bydwreigiaeth